

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Parchu Pawb
a Phopeth

Ethos a Gwerthoedd Ysgol

Gwasanaethu

Cyfiawnder



Maddeuant

Cariad

Parch

Mae Ysgol Pant Pastynog yn rhoi cyfle i bob disgybl ddatblygu'n llawn mewn amgylchedd hapus a gofalgar. Rydym yn Parchu Pawb a phopeth' drwy annog disgyblion i:

- Barchu eu hunain
- Barchu eraill yn yr ysgol
- Barchu gwerthoedd ein hysgo Eglwys a
- Pharchu iaith a thraddodiadau Cymru tra'n parchu diwylliannau eraill.

Ysgol Pant Pastynog



Ysgol Eglwys



Pant Pastynog
Parchu Pawb
a Phopeth

- **Gwasanaethu** - Rydym yn credu fod helpu eraill yn bwysig a byddwn yn achub ar unrhyw gyfle i gefnogi elusennau lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol.
- **Cyfiawnder** - Mae tegwch a thrin pawb yr un fath yn allweddol i ethos yr ysgol a byddwn yn gwrando ar lais y plentyn ac yn addysgu'r digybllion er mwyn pwysleisio fod unrhyw wahaniaethu hiliol neu rywiol yn gwbl annerbyniol.
- **Maddeuant:** - Yn yr ysgol rydym yn annog goddefgarwch a 'thrin eraill fel yr hoffech gael eich trin eich hun. Rydym yn annog y plant i faddau a rhoi ail gyfle i'w gilydd.
- **Parchu** - Drwy roi pob math o brofiadau gan gynnwys addysgu yn yr awyr agored, rydym yn hyrwyddo parch a gofal am yr amgylchedd. Mae gennym ddisgwyliadau uchel ac mae disgwyl i'r plant barchu ei gilydd, barchu staff ac ymwelwyr a pharchu eiddo yn barhaus.
- **Cariad** - Mae awyrgylch braf yn yr ysgol ac mae lles y plant a staff yn ganolog i bob dim. Byddwn yn defnyddio syniadau Meddylfryd Twf wrth feithrin disgyblion hyderus a chariadus.

Mae'r cyfle i addoli ar y cyd yn bwysig iawn i'r ysgol. Mae rhaglen blynyddol o themâu wedi eu paratoi ar gyfer y disgyblion. Yn ystod pob gwasanaeth rydym yn rhoi cyfle i ddisgyblion fyfyrwyr mewn amser o dawelwch.

Rydym yn cynnal gwasanaethau fel ysgol gyfan ar ddydd Llun, Mercher a Gwener, a gwasanaethau oddi fewn ein dosbarthiadau ar ddydd Mawrth a dydd Iau.